



Adolygiad o'r Côt Darlledu:  
Cyfathrebiadau Masnachol  
mewn Rhaglenni Radio  
Datganiad am ddiwygio'r Côt Darlledu

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 20th December 2010



## Rhan 1

# Crynodeb Gweithredol

Mae Ofcom wedi cyflwyno adran newydd i'r Côt Darlledu sef Adran Deg (Radio)<sup>1</sup> ar gyfathrebiadau masnachol<sup>2</sup> (h.y. cyfeiriadau y telir amdanynt at gynnyrch neu wasanaethau) mewn rhaglenni radio ("Adran Deg (Radio)"). Bydd yr Adran hon o'r Côt yn cael ei rhoi ar waith ar unwaith.

Mae Ofcom wedi diwigio'r Côt Darlledu er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'w bwrpas a'i wneud yn gydnaws â'r polisi cyhoeddus ehangach sy'n ymwneud â gosod cynnyrch ar y teledu. Mae Adran Deg (Radio) newydd yn sicrhau diogelwch priodol i ddefnyddwyr, drwy dryloywder yr holl drefniadau masnachol a ddarledir, ac yn rhoi cyfleoedd i'r diwydiant radio gynhyrchu refeniw newydd.

Mae'r rheolau newydd yn caniatáu cyfuno cyfathrebiadau masnachol mewn rhaglenni, ac eithrio hysbysebion sbot, sy'n gorfod bod ar wahân. Mae'r rheolau'n cynnwys gwaharddiadau ar drefniadau masnachol mewn perthynas â meysydd rhaglen allweddol: darllediadau newyddion, rhaglenni plant a dethol a chylchdroi cerddoriaeth ar gyfer ei darlledu.

**NODYN:** Ar 28 Chwefror 2011, bydd adran newydd o'r Côt, sef Adran Naw ar Gyfeiriadau Masnachol mewn Rhaglenni Teledu yn cael ei rhoi ar waith. Tan hynny, bydd Adran Naw (Teledu) ar Nawdd, ac Adran Deg (Teledu) ar Gyfeiriadau Masnachol a Materion Eraill, yn berthnasol i deledu ac yn sefyll ochr yn ochr ag Adran Deg (Radio) yn y Côt Darlledu. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch yn Natganiad Ofcom ar Gyfeiriadau Masnachol mewn Rhaglenni Teledu<sup>3</sup>.

## Cyflwyniad

- 1.1 Y ddogfen hon yw'r datganiad rheoleiddio terfynol ar newidiadau i reolau Côt Darlledu Ofcom ("y Côt") ar gyfathrebiadau masnachol mewn rhaglenni radio.
- 1.2 Mae'n dilyn dau ymgynghoriad ar y rheolau yn y maes hwn: ymgynghoriad ar yr Adolygiad yn 2009 o'r Côt Darlledu (15 Mehefin i 4 Medi 2009)<sup>4</sup> a'r adolygiad yn 2010 o Gyfathrebiadau Masnachol mewn Rhaglenni Radio (28 Mehefin i 17 Medi 2010)<sup>5</sup>. Dylid darllen y datganiad rheoleiddio hwn ar y cyd â'r dogfennau ymgynghori hyn.
- 1.3 Mae'r rheolau sy'n deillio o'r ymgynghoriadau hyn i'w gweld yn Adran Deg (Radio) newydd y Côt (ac fe'u crynhoir ym mharagraff 1.13 isod). Er hwylustod, mae'r Adran Deg (Radio) newydd i'w chael hefyd yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon.

---

<sup>1</sup> <http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/>

<sup>2</sup> I gael rhestr o'r ystyron a'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon, gweler Atodiad 3.

<sup>3</sup> <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/bcrtv2010/statement/>

<sup>4</sup> Ymgynghoriad ar Adolygiad 2009 o'r Côt <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/bcode09/>

<sup>5</sup> Ymgynghoriad ar Adolygiad 2010 o'r Côt <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/bcrradio2010/>

## Cefndir

- 1.4 Fel rhan o'i ddyletswyddau a swyddogaethau o dan Ddeddf Cyfathrebu 2003 ("y Ddeddf"), mae'n rhaid i Ofcom lunio ac, o bryd i'w gilydd, ddiwygio côd ar gyfer gwasanaethau teledu a radio, yn ymdrin â safonau mewn rhaglenni radio a theledu. Daeth y Côt i rym am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2005.
- 1.5 Roedd Ofcom wedi gwneud ymrwymiad yng Nghynllun Blynyddol 2008/9 i ddatblygu'r Côt er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn addas i'w bwrpas. Fel rhan o'r broses hon, lansiwyd yr ymgynghoriad o Adolygiad 2010 o'r Côt Darlledu ar 28 Mehefin 2010. Y nod oedd sicrhau y byddai'r Côt yn rhoi sylw priodol i
- newidiadau a datblygiadau yn yr amgylchedd polisi cyhoeddus a rheoleiddio ehangach,
  - ac i anghenion a dymuniadau gwrandawyr, gan gynnig gwarchodaeth briodol i ddefnyddwyr.

## Cynigion yr Ymgynghoriad

- 1.6 Nododd papur ymgynghori 2010 bedwar dewis yn ymwneud â rheoleiddio cyfathrebiadau masnachol ar y radio i'r dyfodol y gwahoddwyd rhanddeiliaid i ddarparu ymatebion iddynt. Roedd ymgynghoriad ar wahân yn archwilio cyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni teledu<sup>6</sup>. Dyma'r pedwar dewis a gyflwynwyd ar gyfer radio:
- **Dewis A**  
*Y dewis 'gwneud dim' sy'n cynnal yr egwyddor o fod ar wahân<sup>7</sup>*  
Dewis 'status quo' yw hwn a byddai'n cynnal y rheolau cynhwysfawr sydd wedi'i gwneud yn ofynnol hyd yma i bob cyfathrebiad masnachol, ar wahân i gredydau nawdd, gael ei wahanu oddi wrth raglenni. Yr egwyddorion o dryloywder, gwahanu ac annibyniaeth olygyddol sy'n sail i Ddewis A.
  - **Dewis B**  
*Cynnal yr egwyddor o wahanu ond darparu set ddiffiniedig o eithriadau*  
Byddai'r dewis hwn hefyd yn cael ei fframio fel set gynhwysfawr o reolau. Byddai'n cynnal y gofyniad i wahanu cyfathrebiadau masnachol oddi wrth raglenni, ond byddai'n darparu set ddiffiniedig o eithriadau. Yr egwyddorion o dryloywder, gwahanu ac annibyniaeth olygyddol sy'n sail i Ddewis B.
  - **Dewis C**  
*Caniatáu integreiddio cyfathrebiadau masnachol a rhaglenni (ac eithrio mewn perthynas â hysbysebion sbot)*  
Byddai'r dewis hwn yn cael gwared â'r egwyddor o wahanu rhwng cyfathrebiadau masnachol a rhaglenni ac eithrio mewn perthynas â hysbysebion sbot (y byddai'n rhaid iddynt aros ar wahân i raglenni). Byddai hyn yn rhoi mwy o ddewis i orsafoedd radio integreiddio, er enghraifft, gyfeiriadau masnachol hyrwyddol y telir amdanynt mewn rhaglenni cyn

<sup>6</sup> <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/bcrtv2010/>

<sup>7</sup> Gwahanu (ar y radio): hyd yma, nid yw cyfuno cyfathrebiadau masnachol yng nghynnwys golygyddol rhaglenni wedi'i ganiatáu. Yn hytrach, roedd yn rhaid iddynt fod ar wahân i'r rhaglenni. Yn arbennig, roedd hysbysebion sbot yn ymddangos (a byddant yn parhau i ymddangos) mewn egwyliau masnachol a chredydau nawdd yn ymddangos ar ddechrau a/neu ar ddiwedd y rhaglen berthnasol

belled â'u bod yn amlwg i wrandawyr. Byddai'r dewis hwn yn cadw gwerth hysbysebion sbot fel math gwahanol o gynnwys a ffynhonnell refeniw wahanol. Byddai'n cael ei gyflwyno fel set gyfyng o reolau gyda'r bwriad o sicrhau un egwyddor: tryloywder y trefniadau masnachol. Byddai tryloywder o'r fath yn ganolog i sicrhau diogelwch defnyddwyr.

- **Dewis D**

*Caniatáu integreiddio cyfathrebiadau masnachol a rhaglenni (gan gynnwys mewn perthynas â hysbysebion sbot)*

Byddai'r dewis hwn yn cael gwared â'r egwyddor o wahanu cyfathrebiadau masnachol (gan gynnwys hysbysebion sbot) a rhaglenni. Byddai hyn yn rhoi dewis llwyr i orsafoedd radio integreiddio elfennau masnachol mewn rhaglenni, a hynny'n ddi-fwlch, ac ni fyddai wedyn wahaniaethu rhwng hysbysebion sbot traddodiadol a chyfathrebiadau masnachol eraill. Fel yn achos Dewis C uchod, byddai'n cael ei gyflwyno fel set gyfyng o reolau gyda'r nod o sicrhau tryloywder y trefniadau masnachol er mwyn sicrhau diogelwch y defnyddwyr.

## Ymatebion rhanddeiliaid

- 1.7 Derbyniodd Ofcom 21 ymateb i'w gynigion yn ymwneud â rheoleiddio cyfathrebiadau masnachol mewn rhaglenni radio.
- 1.8 Mae'r ymatebion gan yr unigolion a'r sefydliadau hynny nad oeddent wedi gofyn am gyfrinachedd wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom<sup>8</sup>. Daeth y rhain oddi wrth: y Gymdeithas Hysbysebu; Bauer Media; Sefydliad Prydeinig y Galon; yr Ymgyrch dros Ryddid y Cyfryngau a Darlledu; Carat Limited; y Swyddfa Hysbysrwydd Ganolog; Ymgyrch Bwyd Plant; Children's Radio UK Ltd; European Sponsorship Association; Global Radio; GMG Radio Holdings; The Institute of Practitioners in Advertising; RadioCentre and the Radio Advertising Clearance Centre; Shetland Islands Broadcasting Co Ltd; UKRD Group Ltd; UTV Media (GB); UK Music; a Voice of the Listener and Viewer.
- 1.9 Mae'r ymatebion wedi'u crynhoi yng nghyswllt pob un o'r Dewisiadau A i D, yn Rhannau Tri i Chwech isod. Yn gyffredinol, Dewis C gafodd y gefnogaeth fwyaf gan rhanddeiliaid.

## Golwg gyffredinol ar benderfyniad Ofcom

- 1.10 Yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd a'r ystyriaethau a drafodir yn Rhannau 3 i 6 o'r datganiad hwn, gan gynnwys yng nghyswllt yr effaith a dyletswyddau statudol Ofcom, rydym wedi penderfynu gweithredu Dewis C, yn amodol ar waharddiadau mewn meysydd allweddol (darllediadau newyddion, rhaglenni plant a dethol a chylchdroi cerddoriaeth ar gyfer ei darlledu).
- 1.11 Mae'r rheolau yn Adran Deg (Radio) newydd y Côd i'w gweld yn Atodiad 1 ac yn cael eu trafod yn Rhannau 5 i 7 o'r ddogfen hon. Mae'r rheolau'n cynnal yr egwyddor o dryloywder er mwyn sicrhau diogelwch y defnyddiwr.
- 1.12 Yn ein barn ni, mae Adran Deg (Radio) newydd y Côd:

---

<sup>8</sup> <http://stakeholders.ofcom.org.uk/consultations/bcrradio2010/?showResponses=true>

- yn diweddarau'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer radio, fel ei fod yn gyson â'r polisi cyhoeddus ehangach ar osod cynnyrch ar deledu, ac yn adlewyrchu agweddau'r gwrandawyr a bennwyd yn ymchwil defnyddwyr 2009 Ofcom ar radio masnachol<sup>9</sup>;
- yn sicrhau diogelwch priodol i'r defnyddiwr drwy sicrhau bod yr holl drefniadau masnachol yn dryloyw yng nghyswllt deunydd a ddarlledir; ac
- ar yr un pryd, rydym yn ymwybodol ei fod hefyd yn cynnig cyfleoedd i'r diwydiant radio gynhyrchu referniw newydd, a all, yn ei dro, gyllido rhaglenni perthnasol a difyr i wrandawyr.

1.13 Mae'r canlynol yn grynodedb o ofynion Adran Deg (Radio) newydd y Côt:

**Yn unol ag Adran Deg (Radio) y Côt ar gyfathrebiadau masnachol mewn rhaglenni radio rhaid:**

- dwyn sylw mewn modd priodol at y trefniadau masnachol sy'n effeithio ar raglenni i sicrhau bod y trefniant masnachol yn amlwg i wrandawyr (Rheol 10.1);
- gwahanu hysbysebion sbot a rhaglenni'n glir (Rheol 10.2);
- gwahardd trefniadau masnachol mewn perthynas â:
  - cyfeiriadau masnachol mewn, ac yn syth cyn neu ar ôl darllediadau newyddion (Rheol 10.3);
  - cyfeiriadau masnachol integredig mewn rhaglenni plant (Rheol 10.4); a
  - dethol a chylchdroi cerddoriaeth (Rheol 10.5);
- cymhwyso'r Côt BCAP i gyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni (Rheolau 10.6 i 10.8); a
- cadw'r rheolau sy'n ymwneud â:
  - gwasanaethau cyfradd premiwm (Rheolau 10.9 a 10.10);
  - apeliadau elusennol (Rheol 10.11);
  - apeliadau am gyllid ar gyfer rhaglenni neu wasanaethau (Rheol 10.12); a
  - hyrwyddiadau ariannol ac argymhellion buddsoddi (Rheol 10.13).

1.14 Mae Ofcom yn bwriadu cadw golwg ar weithrediad y set rheolau newydd ac, ymhen dwy flynedd, byddwn yn penderfynu a ddylid ymgynghori ar newidiadau pellach i'r rheolau. Fel y trafodwyd yn Rhan 5 o'r ddogfen hon, gallai'r meini prawf a fyddai'n penderfynu a fyddai angen adolygiad o'r fath o'r rheolau gynnwys:

<sup>9</sup> <http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/bcode09/annexes/radioresearch.pdf>

- datblygiadau mewn polisi cyhoeddus sy'n gysylltiedig â mater cyfyngiadau neu waharddiadau ychwanegol ym maes darlledu a hysbysebu;
- datblygiadau yng nghynnyrch radio (os o gwbl) sy'n codi pryderon am ddiogelwch y defnyddiwr (yn benodol, cynulleidfaoedd plant); a
- cwynion a/neu broblemau a godir gan randdeiliaid.

1.15 Mae'n bosibl, fel rhan o'r broses hon, y gellir ystyried symud tuag at gael gwared â'r gofyniad gwahanu ar gyfer hysbysebion sbot (Dewis D, a drafodwyd yn Rhan 6 o'r datganiad hwn). Efallai hefyd y rhoddir ystyriaeth i briodoldeb ac effeithiolrwydd y set rheolau, yng nghyswllt cynnyrch neu wasanaethau a allai fod yn niweidiol, darllediadau newyddion, rhaglenni plant a dethol a chylchdroi cerddoriaeth i'w darlledu.

### **Adran Deg (Radio) newydd y Côd Darlledu a'r Arweiniad**

- 1.16 Mae Adran Deg (Radio) newydd y Côd<sup>10</sup> yn berthnasol i'r holl ddeunydd a ddarlledir ar neu ar ôl 20 Rhagfyr 2010 ac fe'i ceir yn Atodiad 1.
- 1.17 Rydym wedi diweddarau ac wedi adolygu'r arweiniad cysylltiedig<sup>11</sup> sydd ar gael yn Atodiad 2.

---

<sup>10</sup> <http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/broadcast-codes/broadcast-code/>

<sup>11</sup> <http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/guidance/programme-guidance/bguidance/>